Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn

**Cilgant Llansawel**
**Llansawel**
**Castellnedd**
**SA11 2UN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Agorwyd Ysgol Gynradd Gymraeg benodedig Tyle'r Ynn ym mis Medi 1997. Dosbarthiadau meithrin a derbyn yn unig a sefydlwyd ar y cychwyn gyda chyfanswm o 16 o blant, a thyfodd yr ysgol nes cyrraedd y 203 disgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Cymraeg yw unig gyfrwng yr addysgu yn y blynyddoedd cynnar ac yng nghyfnod allweddol 1 (CA1). Daw 90 y cant o ddisgyblion o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg.

Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys cymunedau Llansawel, Crymlyn, Baglan, Melin a Sgiwen. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf ac mae 48 y cant o'r disgyblion yn dod o'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn gweithredu clwb brecwast yn ddyddiol ac mae clybiau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion yr adran iau bob dydd, ar wahan i ddydd Gwener.

Ar hyn o bryd mae 28 disgybl ar y gofrestr Addysg Anghenion Arbennig (AAA), sef 13.8 y cant, ffigwr sydd o dan y cyfartaledd cenedlaethol. Cyflogir athrawes AAA am ddiwrnod yr wythnos ac mae hi'n cynnig cymorth ychwanegol mewn grwpiau bychain i'r disgyblion sydd ag AAA.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n derbyn cinio rhad wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac ar hyn o bryd mae 24.6 y cant yn derbyn cinio rhad ac am ddim. Mae'r ffigwr hwn uwchben y cyfartaledd cenedlaethol. Gofelir am un disgybl gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl).

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2004. Ers hynny penodwyd pennaeth a dirprwy bennaeth newydd ac mae mwy na hanner y staff addysgu hefyd yn aelodau newydd.

Cyllideb yr ysgol ar gyfer pob disgybl yn 2010-2011 yw £3134 ac mae hyn yn cymharu ag uchafswm o £7911 a lleiafswm o £2843 ar gyfer ysgolion cynradd yn sir Castellnedd/Port Talbot. Mae'r gyllideb hon yn gosod yr ysgol ar safle 59 allan o 71 ysgolion cynradd yn y sir.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da;
- mae'r addysgu yn dda ac mae'r disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol;
- mae ethos croesawgar sy'n sicrhau bod pob disgybl yn hapus, yn ddiogel ac yn sicr;
- mae cysylliadau da â rhieni;
- mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol ac mae disgwyliadau uchel gan y pennaeth;
- mae adnabyddiaeth dda gan uwch dîm rheoli'r ysgol o gryfderau a'r hyn sydd angen ei wella; a
- bu gwelliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghyrhaeddiad disgyblion CA2 yn y pynciau craidd.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr yr ysgol:

A1 barhau i godi safonau'r disgyblion yn CA1 ac ymestyn y disgyblion mwyaf galluog a thalentog;

A2 gwella medrau ysgrifennu creadigol Cymraeg disgyblion blynyddoedd 3 a 4;

A3 barhau i ddatblygu rhai agweddau o hunan-arfarnu a sicrhau bod cysondeb yn y gyfundrefn monitro; a

A4 chodi cyfradd presenoldeb y disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Tyle'r Ynn yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn CA1 yn 2010, roedd canlyniadau asesiadau athrawon yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu. Roedd y dangosydd pynciau craidd (DPC), sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel dau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd yn is na'r cyfartaleddau. Pan gymherir canlyniadau CA1 yn 2010 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio'r dangosydd cinio am ddim, roedd canlyniadau'r Gymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC yn y pedwerydd chwartel. Roedd perfformiad y bechgyn yn well na'r merched ym mathemateg a gwyddoniaeth yn 2010.

Mae'r canlyniadau yn y Gymraeg wedi bod yn dda dros y dair blynedd ddiwethaf ac ym mathemateg a gwyddoniaeth yn 2007 a 2009. Ond effeithiwyd ar y canlyniadau yn 2010 gan y nifer o ddisgyblion ag AAA yn y grŵp blwyddyn 2. Mae nifer y disgyblion enillodd y lefel tri uwch yn y pynciau craidd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu o ysgolion dros y dair blynedd ddiwethaf.

Yn CA2 yn 2010, roedd canlyniadau yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu o ysgolion. Roedd y DPC, sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel pedwar yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau.

Pan gymherir canlyniadau 2010 gydag ysgolion tebyg, mae'r canlyniadau yn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC yn dda ac yn yr ail chwartel, ond mae'r Gymraeg yn y trydydd chwartel. Yn 2010 roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn yn y pynciau craidd a'r DPC. Mae'r tuedd ym mherfformiad CA2 yn dda dros y dair blynedd diwethaf, heblaw am y Gymraeg yn 2010 a 2009. Mae perfformiad y disgyblion ar y lefel 5 uwch wedi bod yn dda yn y pynciau craidd dros y blynyddoedd ddiwethaf.

Yn CA1 a CA2, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion ag AAA, gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu. Maent yn gwrando'n dda, yn siarad yn glir, yn darllen ac yn ysgrifennu'n hyderus yn ystod eu gwersi iaith. Mae medrau iaith Gymraeg a medrau dwyieithog y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol heb ddim Cymraeg ac yn gwneud cynnydd effeithiol yn dysgu'r iaith. Er hynny, mae medrau ysgrifennu creadigol rhai o ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn llai effeithiol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r disgyblion at ei gilydd yn gweithio'n galed, yn cyfrannu'n llwyddiannus mewn gwersi ac yn gwneud ymdrech dda. Mae lefel y presenoldeb ar draws yr ysgol yn 91.8 y cant ac mae hyn yn ddigonol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda yn ystod gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac ar y buarth. Mae'r rhan fwyaf yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac eraill a ddaw i'r ysgol. Yn yr holiaduron, mae llawer o ddisgyblion o'r farn bod yr ysgol yn le diogel a thaw ychydig iawn o fwlio neu ymddygiad annerbyniol sy'n digwydd. Lle mae achosion fel hyn yn codi mae'r disgyblion o'r farn bod yr ysgol yn datrys problemau yn dda.

Mae gan aelodau Cyngor yr Ysgol ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n egniol at benderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Bu'r Cyngor yn ymhel â'r fenter Ysgolion Iach trwy ymgyrchoedd ar faterion bwyta'n iach a'r hyn sy'n gwneud ffordd iach o fyw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda iawn o weithgareddau ymarfer corff ac mae'r mwyafrif yn CA2 yn ymestyn eu medrau chwaraeon a medrau bywyd yn dda trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau all-gyrsiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu cyfoethog i fodloni anghenion pob disgybl. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol ac mae cyfleoedd arbennig o dda i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, enillodd yr ysgol y Marc Safon TGCh yng Ngorffennaf 2010. Mae'r cynllunio ar gyfer rhifedd a chyfathrebu hefyd yn dda. Mae'r cyfleoedd a gynlluniwyd ar gyfer ysgrifennu estynedig ym mlynyddoedd 3 a 4 yn gyfyng ond gwelir enghreifftiau mwy cyson ar ddiwedd CA2. Ymgorfforir medrau ehangach, megis meddwl a chydweithio, mewn cynlluniau gwersi.

Mae'r ysgol yn sicrhau fod ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi cyflawni lefel 4 Ysgolion Iach ac yn gweithio tuag at ennill lefel 5. O ganlyniad, fe hyrwyddir cynlluniau megis ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach yn effeithiol.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Cynigir darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo diwylliant Cymru a chaiff disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 gyfleoedd effeithiol i gyfathrebu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ymweliadau preswyl yn flynyddol.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson dda gyda chydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd yr athrawes a gweithgareddau a ddechreuwyd gan y plant. Cynllunnir a threfnir gwaith staff cymorth yn drwyadl a gwneir defnydd dychmygus o'r ardal ddysgu y tu allan.

Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu mae cyflwyniad bywiol a gwybodus yr athrawon yn ysbrydoli'r disgyblion ac yn arwain at ddysgu hynod o effeithiol.

Mae'r perthnasau rhwng athrawon a disgyblion yn gyson dda. Mae'r defnydd effeithiol o glod yn cymell disgyblion a'u hannog i roi o'u gorau. Mae nodau clir i'r

gwersi sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Rhoddir mewnbwn cefnogol i unigolion a grwpiau ac mae trefniadaeth dosbarth yn dda. Mae cyflymdra da i'r rhan fwyaf o'r gwersi.

Bron ym mhob gwers, gwneir defnydd effeithiol o strategaethau addysgu amrywiol gan gynnwys trefniadaeth addysgu ysgol gyfan, gweithgareddau grŵp, parau a gwaith unigol fel bo'r angen.

Caiff yr holl wersi eu cynllunio'n drylwyr ac ychwanegir yn sylweddol at ansawdd yr addysgu gan gymorthyddion cydwybodol a medrus.

Sicrheir cyfle cyfartal i bob disgybl a rhoddir pwyslais addas ar ddatblygu medrau dwyieithog disgyblion.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr asesu yn dda ac yn galluogi'r ysgol i adnabod cryfderau disgyblion ac i amlygu meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol yn dda, yn ogystal ag asesiadau'r athrawon eu hunain i osod targedau dosbarth ar gyfer cyflawniad disgyblion ac i adnabod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r gyfundrefn i safoni gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gymedroli asesu'r athrawon yn cael ei ddatblygu'n dda. Fodd bynnag, nid oes strwythur cyffelyb ar gyfer y pynciau sylfaen ac addysg gorfforol. Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwella gwaith eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth ac arweiniad yn dda ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, chymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus gydag ethos gofalgar a chyfeillgar. Dywedodd y disgyblion eu bod yn gartrefol yn yr ysgol oherwydd y berthynas arbennig sydd rhyngddynt a'r athrawon. Mae hybu gwerthoedd fel hunan-barch a pharch at eraill yn nodweddion amlwg ac mae'r staff addysgu a chynnal yn darparu amgylchedd diogel a sicr. Mae'r trefniadau i ddiogelu disgyblion yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer iechyd a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fwyta ffrwythau adeg egwyl ac mae'r wythnos ffitrwydd, y gemau buarth, gwersi nofio ynghyd ag ystod eang o glybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynyddu lefelau iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi cyflawni cam pedwar y Wobr Ysgolion Iach ac mae'r clwb brecwast yn sicrhau dechrau da i'r diwrnod ysgol.

Mae rhaglen i hyrwyddo Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) disgyblion wedi ei sefydlu'n dda a thrwy sesiynau 'Athroniaeth i Blant' caiff disgyblion gyfleoedd cyson i drafod ystod o faterion personol a chymdeithasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg unigol priodol ac ynddynt ceir targedau realistig. Fodd bynnag, nid oes cyfle systematig i'r rhieni gymryd rhan yn y broses o adolygu'r cynlluniau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r adeiladau o ansawdd da ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r dosbarthiadau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol o rhain. Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da i ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o bartneriaethau ac adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer disgyblaeth a dileu unrhyw ymddygiad gormesol a cheir cyfle i ymwneud â rhain mewn sesiynau amser cylch. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal i ddisgyblion yn dda. Hyrwyddir cydraddoldeb hiliol drwy holl weithgareddau'r ysgol.

Cymerir camau effeithiol i sicrhau na fydd disgyblion sydd ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol ac mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd addas i adlewyrchu hyn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth feddylgar y pennaeth yn llwyddo i gydlynu ymdrechion y corff llywodraethu, staff a'r rhieni yn effeithiol gan roi ymdeimlad cryf o gyfeiriad i waith yr ysgol. Maent oll yn ymrwymedig i nodau ac amcanion yr ysgol, cydrannant werthoedd cytûn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran datblygiad a llwyddiant y dysgwyr.

Mae'r pennaeth yn derbyn cefnogaeth dda gan y dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli. Maent yn gweithio'n dda ac yn gefnogol iawn o'i gilydd.

Ymgymera'r pennaeth â'i chyfrifoldebau yn effeithiol. Cyd-weithia'r staff addysgu a'r staff cynhaliol yn effeithiol fel tîm gan ymgymryd â chyfran briodol o gyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â rhediad dydd-i-ddydd yr ysgol ac ystyrir eu barn cyn gwneud penderfyniadau strategol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei rhaglen waith a chydweithia'n effeithiol gyda nifer o bartneriaethau. Mae wedi ennill achrediad Marc Safon y Sgiliau Sylfaenol, Marc Safon Active Cymru ac yn ymgymryd â nifer o fentrau megis yr Ysgolion Iach, Ysgolion Eco a datblygiadau dinasyddiaeth fyd-eang a chynaladwyedd. Cymerwyd camau pendant i weithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Gweithredir gofynion rheoli perfformiad yn drylwyr. Caiff ansawdd yr addysgu ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a diwallu anghenion proffesiynol athrawon.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethu adnabyddiaeth drylwyr o flaenoriaethau'r ysgol a gweithredant yn effeithiol er mwyn cynorthwyo'r pennaeth i roi cyfeiriad strategol i

waith yr ysgol. Ymagweddant yn feirniadol tuag at eu gwaith gan chwilio'n gyson am ffyrdd i weithredu'n fwy effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth, aelodau'r uwch dîm rheoli, athrawon a'r corff llywodraethu yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau dull iachus o hunan-arfarnu. Mae'r staff yn rhan weithredol o'r broses hunan-arfarnu, gyda safbwyntiau'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu hystyried trwy holiaduron.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn dda ac mae'n cynnig trosolwg defnyddiol o sefyllfa'r ysgol. Mae'n dynodi meysydd ac agweddau sy'n gryfderau ynghyd â rhai y mae angen sylw pellach.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer gwella ond nid yw cynllun datblygu'r ysgol, na'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y blynyddoedd nesaf, yn targedu'r holl faterion a godwyd yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer monitro perfformiad disgyblion. Mae cydlynwyr y cwricwlwm yn arfarnu cynnydd ac yn paratoi adroddiadau priodol. Fodd bynnag, mae anghysondeb ar adegau yn ansawdd yr adroddiadau.

Mae'r staff yn cael cyfleoedd da ar gyfer datblygu'n broffesiynol, yn unol â'u cyfrifoldebau penodol a'u hamcanion sydd wedi'u cysylltu â rheoli perfformiad. Mae'r staff hefyd yn dysgu oddi wrth eraill y tu allan i'r ysgol trwy fentrau clwstwr a chyfranogi mewn mentrau megis 'Cymunedau Dysgu Proffesiynol.'

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae'r rhain yn arbennig o effeithiol gyda chymdeithasau lleol. Mae trefniadau partneriaeth da i baratoi disgyblion i fynd i'w hysgol uwchradd ddewisol a chysylltiadau da ag Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at ehangu'r ystod o ddewisiadau ar gyfer disgyblion ac mae'r ysgol yn cymryd rôl flaenllaw mewn nifer o bartneriaethau ac o fewn y gymuned. Ceir cydweithio effeithiol gyda'r rhieni ac aelodau o'r Pwyllgor Rhieni. Mae cydweithio effeithiol gyda nifer o asianteithiau allanol a chymerir bob cyfle i ddatblygu rhaglenni sy'n gwella deilliannau a lles disgyblion. Engraifft dda o hyn yw'r bartneriaeth Seren Aur sydd yn ychwanegu gwybodaeth y disgyblion o fywyd dyddiol yn y trydydd byd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cefnogi cymwys a phrofiadol i gyflawni anghenion dysgu'r disgyblion, yn cynnwys rhai ag AAA, ac fe'u defnyddir yn effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi'u trefnu a'u gweithredu'n effeithlon ac mae ganddynt effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac mae llywodraethwyr, trwy'r is-bwyllgor ariannol, yn monitro cyllid yr ysgol yn glos, er mwyn sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn sicrhau y defnyddir adnoddau'n ddoeth ac yn effeithlon er mwyn hybu diddordebau'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae rheolaeth ariannol yn dda. Mae hyn, ynghyd â chynnydd da y disgyblion a'u cyraeddiadau, yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu gwerth dda am arian.

# Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd 11 o'r rhieni yr holiadur. Mae pawb yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu plant yn ymgartrefu'n dda pan yn cychwyn yn yr ysgol a phawb yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae cant y cant yn cytuno bod yr addysgu yn dda, bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae naw y cant yn anghytuno bod y plant yn ymddwyn yn dda.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd 73 o ddisgyblion yr holiadur a siaradodd y tîm arolygu â'r disgyblion hefyd. Mae cant y cant o'r disgyblion yn credu bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn datgan bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed y rhan fwyaf eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae 68 y cant o'r disgyblion yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a 71 y cant yn barnu bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr R.Ogwyn Phillips | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwilym Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Sian Hart | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |